**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Medi 2015**

## DYFARNIAD CYFLOG Y PRIF SWYDDOGION 2015

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i'r Aelodau gefnogi'r cytundeb ynghylch dyfarniad cyflog 2015 a wnaed gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (yr NJC) ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol.

## Cefndir

2 Prif rôl y Cyd-Gyngor yw dod i gytundeb ar fframwaith cenedlaethol cyflogau ac amodau Rheolwyr Brigâd i'w cymhwyso'n lleol yn y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Deyrnas Unedig. Yn GTAGC, mae'r term 'Rheolwyr Brigâd' yn cyfeirio at swyddi Prif Swyddog Tân, Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol.

3 Yn dilyn dyfodiad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, diwygiwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Diwygio) (Cymru) i adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth gyda'r Mesur. Er bod y rhan fwyaf o'r newidiadau'n ymwneud ag awdurdodau lleol, mae rhai ohonynt yn berthnasol i'r awdurdodau tân ac achub.

4 Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch talu prif swyddogion. Pwrpas hyn yw sicrhau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad i bennu neu amrywio tâl prif swyddogion (neu rai i'w penodi yn brif swyddogion) gael ei wneud gan yr awdurdod llawn heb y posibilrwydd o ddirprwyo hyn i un o bwyllgorau'r awdurdod. Mae hyn yn cynnwys unrhyw godiad cyflog blynyddol y cytunir arno'n genedlaethol.

## Gwybodaeth

5 Mae'r Cyd-Gyngor wedi dod i gytundeb ynghylch dyfarniad cyflog 2016, sef codiad o 1.0% yn y cyflog sylfaenol, gan ddod i rym o 1 Ionawr 2015 ymlaen fel y nodwyd yn y memo dyddiedig 18 Mehefin 2015 sydd yn Atodiad 1.

6 Mae Atodiad 2 yn dangos isafswm cyfraddau blynyddol cyflogau prif swyddogion tân.

## Argymhelliad

7 Bod yr Aelodau'n cefnogi penderfyniad y Cyd-Gyngor fel y nodir uchod.

**Atodiad 1**
(cyfieithiad)

**Ysgrifennydd y Cyflogwyr, Simon Pannell**
**Local Government House, Smith Square**
**London, SW1P 3HZ**
**Ffôn 020 7664 3188**
**e-bost: firequeries@local.gov.uk**
**Ysgrifennydd Ochr y Staff, Stuart Errington**
**9 -11 Pebble Close**
**Amington**
**Tamworth**
**Staffordshire**
**B77 4RD**
**Ffôn 01827 302300**

# Y CYD-GYNGOR CENEDLAETHOL AR GYFER RHEOLWYR BRIGÂD GWASANAETHAU TÂN AC AWDURDODAU LLEOL

---

**I: Gadeiryddion Awdurdodau Tân**
**Prif Swyddogion Tân**
**Clercod i'r Awdurdodau Tân**
**Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol**
**Aelodau'r Cyd-Gyngor**

---

18 Mehefin 2015

Annwyl Syr/Fadam

**Dyfarniad Cyflog 2015**

1. Mae'r Cyd-Gyngor wedi cytuno i godiad o 1.0% yng nghyflog rheolwyr brigâd gan ddod i rym ar 1af Ionawr 2015. Dylai cyflog pob rheolwr brigâd sy'n dod dan gytundeb y Cyd-Gyngor godi felly yn unol â'r swm hwn gan ddod i rym ar y dyddiad hwnnw. Mae'r cyfraddau blynyddol isafswm diwygiedig ar gyfer prif swyddogion tân **drosodd.**

2. Mae'r trefniadau isafswm cyflog ar gyfer penodiadau ym mandiau poblogaeth 1 a 2 yn aros fel y diffiniwyd yn setliad cyflogau 2006/2007 (a gyhoeddwyd drwy gylchlythyr ar 7 Rhagfyr 2006), a bydd yn destun adolygiad maes o law.

Yn gywir,

SIMON PANNELL
STUART ERRINGTON
Cyd-Ysgrifenyddion

## Atodiad 2

**Cyfraddau Cyflog Blynyddol Prif Swyddogion Tân**
**O'r 1af Ionawr 2015 ymlaen**

| | |
|---|---|
| **Band poblogaeth 1** | Hyd at 500,000 |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £98,788* |
| **Band poblogaeth 2** | 500,001 i 1,000,000 |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £98,788* |
| **Band poblogaeth 3** | 1,000,001 i 1,500,000 |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £107,803 |
| **Band poblogaeth 4** | 1,500,000 ac uwch (ac eithrio Llundain) |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £118,483 |
| **Band poblogaeth 5** | Llundain |
| **Isafswm cyfradd cyflog** | £130,232 |

* Penodiadau newydd yn unol â pharagraff 5 o'r adroddiad